



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2018 Rhif 275 (Cy. 51)

2018 No. 275 (W. 51)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Llaeth Cyddwys a
Llaeth Sych (Cymru) 2018**

**The Condensed Milk and Dried
Milk (Wales) Regulations 2018**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3053 (Cy. 291)) ac yn dirymu Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) (Diwygio) 2008 (O.S. 2008/137 (Cy. 19)). Maent yn trosi Cyfarwydddeb y Cyngor 2001/114/EC sy'n ymwneud â llaeth penodol sydd wedi ei breserfio a'i ddadhydradu'n rhannol neu'n llwyr i'w fwyta neu i'w yfed gan bobl (OJ Rhif L 15, 17.1.02, t 19).

These Regulations, which apply in relation to Wales, revoke and replace the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/3053 (W. 291)) and revoke the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) (Amendment) Regulations 2008 (S.I. 2008/137 (W. 19)). They transpose Council Directive 2001/114/EC relating to certain partly or wholly dehydrated preserved milk for human consumption (OJ No L 15, 17.1.02, p 19).

Mae rheoliad 2 ac Atodlenni 1 a 2 yn diffinio cynhyrchion llaeth cyddwys a chynhyrchion llaeth sych a'r disgrifiadau neilltuedig sy'n gymwys iddynt.

Regulation 2 and Schedules 1 and 2 define condensed milk and dried milk products and the reserved descriptions that apply to them.

Mae rheoliad 3 yn gwahardd labelu bwyd â'r disgrifiadau neilltuedig ac eithrio'r cynhyrchion llaeth cyddwys a'r cynhyrchion llaeth sych dynodedig y maent yn ymwneud â hwy.

Regulation 3 prohibits the labelling with reserved descriptions of food other than the designated condensed and dried milk products to which they relate.

Mae rheoliad 4 yn nodi'r gofynion labelu ar gyfer cynhyrchion llaeth cyddwys a chynhyrchion llaeth sych dynodedig.

Regulation 4 sets out the labelling requirements for designated condensed and dried milk products.

Mae rheoliad 5 yn nodi'r dull o farcio neu labelu'r cynhyrchion llaeth cyddwys a'r cynhyrchion llaeth sych dynodedig â'r manylion sy'n ofynnol gan reoliad 4. Mae'r gofynion marcio a labelu yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (OJ Rhif L 304, 22.11.11, t 18).

Regulation 5 sets out the manner of marking or labelling the designated condensed and dried milk products with the particulars required by regulation 4. The marking and labelling requirements are in accordance with Regulation (EU) No 1169/2011 of the European Parliament and of the Council on the provision of food information to consumers (OJ No L 304, 22.11.11, p 18).

Mae rheoliad 6 ac Atodlen 3 yn cymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p. 16) gydag addasiadau. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso adran 10(1) (gydag addasiadau) a (2), sy'n galluogi i hysbysiad gwella gael ei gyflwyno sy'n gwneud cydymffurfedd â rheoliadau 3, 4 a 5 yn ofynnol. Mae'r darpariaethau, fel y'u cymhwysir, yn gwneud methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella yn drosedd o dan adran 10(2).

Mae rheoliad 7 yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau bwyd i orfodi'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 8 yn dirymu'r Rheoliadau blaenorol, fel y nodir uchod.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulation 6 and Schedule 3 apply certain provisions of the Food Safety Act 1990 (1990 c. 16) with modifications. This includes the application of section 10(1) (with modifications) and (2), enabling an improvement notice to be served to require compliance with regulations 3, 4 and 5. The provisions, as applied, make the failure to comply with an improvement notice an offence under section 10(2).

Regulation 7 imposes an obligation on food authorities to enforce these Regulations.

Regulation 8 revokes previous Regulations, as set out above.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2018 Rhif 275 (Cy. 51)

2018 No. 275 (W. 51)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Llaeth Cyddwys a
Llaeth Sych (Cymru) 2018**

**The Condensed Milk and Dried
Milk (Wales) Regulations 2018**

Gwnaed 27 Chwefror 2018

Made 27 February 2018

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 5 Mawrth 2018

*Laid before the National Assembly
for Wales* 5 March 2018

Yn dod i rym 26 Mawrth 2018

Coming into force 26 March 2018

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 6(4), 16(1)(e), 17(1) a (2), 26(1) a (3) ac 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1) a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 6(4), 16(1)(e), 17(1) and (2), 26(1) and (3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1) and paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972(2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at yr offerynnau Ewropeaidd, a'r Atodiad i'r offeryn Ewropeaidd, a restrir yn rheoliad 2(4) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny a'r Atodiad hwnnw fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references to the European instruments, and the Annex to the European instrument, listed in regulation 2(4) to be construed as references to those instruments and that Annex as amended from time to time.

(1) 1990 p. 16. Diwygiwyd adran 16(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 17(1) a (2) gan baragraffau 8 a 12 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2011/1043. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 48(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(2) 1972 p. 68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) ac O.S. 2007/1388.

(1) 1990 c. 16. Section 16(1) was amended by paragraph 8 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (c. 28) ("the 1999 Act"). Section 17(1) and (2) was amended by paragraphs 8 and 12 of Schedule 5 to the 1999 Act and S.I. 2011/1043. Section 26(3) was amended by Schedule 6 to the 1999 Act. Section 48(1) was amended by paragraph 8 of Schedule 5 to the 1999 Act. Functions formerly exercisable by "the Ministers" so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672 as read with section 40(3) of the 1999 Act, and subsequently transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(2) 1972 c. 68. Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and was amended by Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7) and S.I. 2007/1388.

I'r graddau y mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer pwerau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 48(4A)(1) o'r Ddeddf honno.

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(2).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 26 Mawrth 2018.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “cyfanswm y solidau llaeth” (“*total milk solids*”) yw holl gyfansoddion llaeth ac eithrio dŵr, gan gynnwys braster llaeth, a'r cyfansoddion ac eithrio braster llaeth sy'n bresennol yn eu cyfrannau naturiol;

ystyr “cynnyrch dynodedig” (“*designated product*”) yw unrhyw gynnyrch a bennir yn nhrydedd golofn y tabl yn Atodlen 1 (fel y'i darllenir gyda'r Nodiadau i'r Atodlen honno) sy'n barod i'w ddanfôn i ddefnyddiwr olaf neu i arlwywr mawr;

ystyr “disgrifiad neilltuedig” (“*reserved description*”), mewn cysylltiad ag unrhyw gynnyrch dynodedig, yw unrhyw ddisgrifiad a bennir mewn perthynas â'r cynnyrch hwnnw yng ngholofn gyntaf y tabl yn Atodlen 1 neu unrhyw ddisgrifiad arall a ganiateir gan Atodlen 2;

So far as these Regulations are made in exercise of powers under the Food Safety Act 1990, the Welsh Ministers have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency in accordance with section 48(4A)(1) of that Act.

There has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(2).

Title, application and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations come into force on 26 March 2018.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Food Safety Act 1990;

“designated product” (“*cynnyrch dynodedig*”) means any product specified in the third column of the table in Schedule 1 (as read with the Notes to that Schedule) ready for delivery to a final consumer or to a mass caterer;

“partly dehydrated milk” (“*llaeth wedi ei ddadhydradu'n rhannol*”) means the liquid product, whether or not sweetened, obtained by the partial removal of water from milk, wholly or partly skimmed milk or a mixture of these products and includes such a product to which cream or totally dehydrated milk (or both) has been added, provided that the addition of totally dehydrated milk does not exceed, in the finished product, 25% of total milk solids;

(1) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

(2) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 652/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 189, 27.6.2014, t 1).

(1) Section 48(4A) was inserted by paragraph 21 of Schedule 5 to the 1999 Act.

(2) OJ No L 31, 1.2.2002, p 1, last amended by Regulation (EU) No 652/2014 of the European Parliament and of the Council (OJ No L 189, 27.6.2014, p 1).

ystyr “disgrifiad neilltuedig cyfatebol Cymraeg” (“*Welsh equivalent reserved description*”), mewn cysylltiad ag unrhyw gynnyrch dynodedig, yw’r disgrifiad Cymraeg mewn perthynas â’r cynnyrch hwnnw a bennir yn ail golofn y tabl yn Atodlen 1 neu’r disgrifiad Cymraeg cyfatebol a bennir yn Atodlen 2 o unrhyw ddisgrifiad arall a ganiateir gan yr Atodlen honno;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae “gwerthu” (“*sell*”) yn cynnwys cynnig rhywbeth i’w werthu, rhoi rhywbeth ar ddangos i’w werthu neu gael rhywbeth yn eich meddiant i’w werthu;

ystyr “llaeth wedi ei ddadhydradu’n llwyr” (“*totally dehydrated milk*”) yw’r cynnyrch solet, pan na fo’r cynnwys dŵr yn fwy na 5% o’r cynnyrch gorffenedig yn ôl pwysau, a geir drwy dynnu dŵr o laeth, o laeth llwyr sgim neu o laeth rhannol sgim, o hufen neu o gymysgedd o’r cynhyrchion hynny;

ystyr “llaeth wedi ei ddadhydradu’n rhannol” (“*partly dehydrated milk*”) yw’r cynnyrch hylif, pa un a yw wedi ei felysu ai peidio, a geir drwy dynnu peth dŵr o laeth, o laeth llwyr sgim neu o laeth rhannol sgim, neu o gymysgedd o’r cynhyrchion hyn, ac mae’n cynnwys unrhyw gynnyrch yr ychwanegwyd hufen neu laeth wedi ei ddadhydradu’n llwyr ato (neu’r ddau), ar yr amod nad yw’r llaeth wedi ei ddadhydradu’n llwyr yn fwy, yn y cynnyrch gorffenedig, na 25% o gyfanswm y solidau llaeth.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr “defnyddiwr olaf” (“*final consumer*”) yw unrhyw berson sy’n prynu ac eithrio—

- (a) er mwyn ailwerthu;
- (b) ar gyfer arlwywr mawr;
- (c) ar gyfer busnes gweithgynhyrchu.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr “arlwywr mawr” (“*mass caterer*”) yw bwyty, ffreutur, clwb, tafarn, ysgol, ysbyty neu sefydliad tebyg (gan gynnwys cerbyd neu stonin sefydlog neu symudol) pan fo, wrth gynnal busnes, fwyd yn cael ei baratoi i’w ddanfôn i’r defnyddiwr olaf, ac yn barod i’w fwyta heb waith paratoi pellach ac, at ddibenion y diffiniad hwn, mae “paratoi” (“*preparation*”) yn cynnwys gweithgynhyrchu ac unrhyw fath o brosesu neu drin.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at yr offerynnau Ewropeaidd a’r Atodiad a ganlyn yn gyfeiriadau at yr offerynnau hynny a’r Atodiad hwnnw fel y’u diwygir o bryd i’w gilydd—

“reserved description” (“*disgrifiad neilltuedig*”), as respects any designated product, means any description specified in relation to that product in the first column of the table in Schedule 1 or any alternative description permitted by Schedule 2;

“sell” (“*gwerthu*”) includes offer or expose for sale or have in possession for sale;

“totally dehydrated milk” (“*llaeth wedi ei ddadhydradu’n llwyr*”) means the solid product, where the water content does not exceed 5% by weight of the finished product, obtained by removal of water from milk, wholly or partly skimmed milk, cream or a mixture of those products;

“total milk solids” (“*cyfanswm y solidau llaeth*”) means all the constituents of milk other than water, including milk fat, the constituents other than milk fat being present in their natural proportions;

“Welsh equivalent reserved description” (“*disgrifiad neilltuedig cyfatebol Cymraeg*”), as respects any designated product, means the Welsh language description in relation to that product specified in the second column of the table in Schedule 1 or the Welsh language equivalent specified in Schedule 2 of any alternative description permitted by that Schedule.

(2) In this regulation, “final consumer” (“*defnyddiwr olaf*”) means any person who buys otherwise than for—

- (a) resale;
- (b) a mass caterer;
- (c) a manufacturing business.

(3) In this regulation, “mass caterer” (“*arlwywr mawr*”) means a restaurant, canteen, club, public house, school, hospital or similar establishment (including a vehicle or a fixed or mobile stall) where, in the course of a business, food is prepared for delivery to the final consumer and is ready for consumption without further preparation and, for the purposes of this definition, “preparation” (“*paratoi*”) includes manufacture and any form of processing or treatment.

(4) In these Regulations, references to the following European instruments and Annex are references to those instruments and that Annex as amended from time to time—

- (a) Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd(1);
- (b) Rheoliad (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegu fitaminau a mwynau a sylweddau penodol eraill at fwydydd(2);
- (c) Gyfarwyddeb Gyntaf y Comisiwn 79/1067/EEC sy'n gosod dulliau'r Gymuned o ddadansoddi er mwyn profi llaeth penodol sydd wedi ei breserfio a'i ddadhydradu'n rhannol neu'n llwyr i'w fwyta neu i'w yfed gan bobl(3);
- (d) yr Atodiad i Gyfarwyddeb Gyntaf y Comisiwn 87/524/EEC sy'n gosod dulliau'r Gymuned o samplu ar gyfer dadansoddi cemegol, er mwyn monitro cynhyrchion llaeth sydd wedi eu preserfio(4).

Disgrifiadau neilltuedig

3. Ni chaiff neb werthu unrhyw fwyd â label, pa un a yw wedi ei gysylltu â'r deunydd lapio neu'r cynhwysydd neu wedi ei argraffu arno ai peidio, a'r label hwnnw yn dwyn arno, yn ffurfio neu'n cynnwys unrhyw ddisgrifiad neilltuedig neu ddisgrifiad neilltuedig cyfatebol Cymraeg, neu ddisgrifiad cyfatebol mewn unrhyw iaith arall, tarddair o ddisgrifiad o'r fath, neu air neu ddisgrifiad sy'n sylweddol debyg iddo oni bai—

- (a) bod bwyd o'r fath yn gynnrych dynodedig y mae'r disgrifiad neilltuedig, y disgrifiad neilltuedig cyfatebol Cymraeg neu'r disgrifiad cyfatebol mewn unrhyw iaith arall, yn ymwneud ag ef;
- (b) bod disgrifiad, tarddair neu air o'r fath yn cael ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwnnw er mwyn dynodi'n eglur neu drwy awgrym clir nad yw'r sylwedd y mae'n ymwneud ag ef ond yn gynhwysyn yn y bwyd hwnnw; neu
- (c) bod disgrifiad, tarddair neu air o'r fath yn cael ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwnnw er mwyn dynodi'n eglur neu drwy awgrym clir nad yw'r bwyd hwnnw yn gynnrych dynodedig ac nad yw'n cynnwys cynnyrch dynodedig.

Reserved descriptions

3. No person may sell any food with a label, whether or not attached to or printed on the wrapper or container, which bears, comprises or includes any reserved description or Welsh equivalent reserved description, or an equivalent description in any other language, a derivative of such description, or a substantially similar word or description unless—

- (a) such food is the designated product to which the reserved description, Welsh equivalent reserved description or equivalent description in any other language, relates;
- (b) such description, derivative or word is used in such a context as to indicate explicitly or by clear implication that the substance to which it relates is only an ingredient of that food; or
- (c) such description, derivative or word is used in such a context as to indicate explicitly or by clear implication that such food is not and does not contain a designated product.

(1) OJ Rhif L 354, 31.12.08, t 16, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/874 (OJ Rhif L 134, 23.5.17, t 18).
 (2) OJ Rhif L 404, 30.12.06, t 26, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1203 (OJ Rhif L 173, 6.7.17, t 9).
 (3) OJ Rhif L 327, 24.12.79, t 29.
 (4) OJ Rhif L 306, 28.10.87, t 24.

(1) OJ No L 354, 31.12.08, p 16, last amended by Commission Regulation (EU) 2017/874 (OJ No L 134, 23.5.17, p 18).
 (2) OJ No L 404, 30.12.06, p 26, last amended by Commission Regulation (EU) 2017/1203 (OJ No L 173, 6.7.17, p 9).
 (3) OJ No L 327, 24.12.79, p 29.
 (4) OJ No L 306, 28.10.87, p 24.

Labelu a disgrifio

4.—(1) Ni chaiff neb werthu unrhyw gynnyrch dynodedig oni bai ei fod wedi ei farcio neu wedi ei labelu â'r manylion a ganlyn—

- (a) ei ddisgrifiad neilltuedig,
- (b) ac eithrio yn achos y cynhyrchion a bennir ym mharagraffau 1(d) ac (g) a 2(d) yn y tabl yn Atodlen 1, canran y braster llaeth, a fynegir yn ôl pwysau mewn perthynas â'r cynnyrch gorffenedig,
- (c) yn achos y cynhyrchion a bennir ym mharagraff 1 yn y tabl yn Atodlen 1, canran yr echdyniad llaeth sych sy'n rhydd o fraster, a
- (d) yn achos y cynhyrchion a bennir ym mharagraff 2 yn y tabl yn Atodlen 1—
 - (i) yr argymhellion ynghylch dull gwanhau neu ailgyfansoddi'r cynnyrch a manylion am ei gynnwys braster pan gaiff ei wanhau neu ei ailgyfansoddi, a
 - (ii) datganiad yn cynnwys y geiriau “not intended as a food for infants under 12 months”.

(2) Nid oes dim byd ym mharagraff (1)(a) sy'n atal defnyddio'r disgrifiad neilltuedig cyfatebol Cymraeg neu'r disgrifiad cyfatebol mewn unrhyw iaith arall yn ogystal â'r disgrifiad neilltuedig.

(3) Nid oes dim byd ym mharagraff (1)(d)(ii) sy'n atal defnyddio'r geiriau “nid yw wedi ei fwriadu yn fwyd i fabanod o dan 12 mis oed”, neu eiriau cyfatebol mewn unrhyw iaith arall, yn ogystal â “not intended as a food for infants under 12 months”.

Dull marcio neu labelu

5.—(1) Rhaid i'r manylion y mae'n ofynnol marcio neu labelu cynnyrch dynodedig â hwy yn rhinwedd rheoliad 4(1)(b) neu (c) (neu'r ddau) ymddangos wrth enw masnachol y cynnyrch.

(2) Pan fo cynhyrchion dynodedig sy'n pwysu llai nag 20 gram yr uned wedi eu pacio mewn deunydd pacio allanol, caiff y manylion sy'n ofynnol gan reoliad 4(1)(b) i (d) ymddangos ar y label neu ar y deunydd pacio allanol.

Cymhwyso ac addasu darpariaethau'r Ddeddf

6.—(1) Mae adran 10(1) a (2) o'r Ddeddf (hysbysiadau gwella) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad (yn achos adran 10(1)) a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 3 at ddibenion—

Labelling and description

4.—(1) No person may sell any designated product unless it is marked or labelled with the following particulars—

- (a) its reserved description,
- (b) except in the case of the products specified in paragraphs 1(d) and (g) and 2(d) in the table in Schedule 1, the percentage of milk fat, expressed by weight in relation to the finished product,
- (c) in the case of the products specified in paragraph 1 in the table in Schedule 1, the percentage of fat-free dried milk extract, and
- (d) in the case of the products specified in paragraph 2 in the table in Schedule 1—
 - (i) the recommendations as to the method of dilution or reconstitution and the details of the fat content of the product when diluted or reconstituted, and
 - (ii) a statement containing the words “not intended as a food for infants under 12 months”.

(2) Nothing in paragraph (1)(a) prevents the use of the Welsh equivalent reserved description or equivalent description in any other language in addition to the reserved description.

(3) Nothing in paragraph (1)(d)(ii) prevents the use of the words “nid yw wedi ei fwriadu yn fwyd i fabanod o dan 12 mis oed”, or equivalent words in any other language, in addition to “not intended as a food for infants under 12 months”.

Manner of marking or labelling

5.—(1) The particulars with which a designated product is required to be marked or labelled by virtue of regulation 4(1)(b) or (c) (or both) must appear near the trade name of the product.

(2) Where designated products weighing less than 20 grams per unit are packed in an outer packaging, the particulars required by regulation 4(1)(b) to (d) may appear on the label or the outer packaging.

Application and modification of provisions of the Act

6.—(1) Section 10(1) and (2) of the Act (improvement notices) applies for the purposes of these Regulations with the modification (in the case of section 10(1)) set out in Part 1 of Schedule 3 for the purposes of—

- (a) galluogi i hysbysiad gwella gael ei gyflwyno i berson sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau yn rheoliadau 3, 4, neu 5; a
- (b) gwneud methu â chydymffurfio â hysbysiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) yn drosedd.

(2) Mae darpariaethau'r Ddeddf a bennir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 3 yn gymwys, gyda'r addasiadau a bennir yng ngholofn 2 y tabl hwnnw, at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(3) Nid yw paragraffau (1) a (2) yn rhagfarnu cymhwyso'r Ddeddf i'r Rheoliadau hyn at ddibenion ac eithrio'r rhai a bennir ym mharagraff (1).

Gorfodi

7. Dyletswydd pob awdurdod bwyd yw gorfodi'r Rheoliadau hyn yn ei ardal.

Dirymiadau

8. Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu i'r graddau a bennir—

<i>Y Rheoliadau a ddiddymir</i>	<i>Graddau'r dirymu</i>
Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) 2003(1)	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(2)	Rheoliad 33(2)
Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) (Diwygio) 2008(3)	Y Rheoliadau cyfan

- (a) enabling an improvement notice to be served on a person requiring that person to comply with any of the provisions of regulations 3, 4 or 5; and
- (b) making the failure to comply with a notice referred to in sub-paragraph (a) an offence.

(2) The provisions of the Act specified in the first column of the table in Part 2 of Schedule 3 apply, with the modifications specified in column 2 of that table, for the purposes of these Regulations.

(3) Paragraphs (1) and (2) are without prejudice to the application of the Act to these Regulations for purposes other than those specified in paragraph (1).

Enforcement

7. It is the duty of each food authority to enforce these Regulations in its area.

Revocations

8. The following Regulations are revoked to the extent specified—

<i>Regulations revoked</i>	<i>Extent of revocation</i>
The Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2003(1)	The whole Regulations
The Food Hygiene (Wales) Regulations 2006(2)	Regulation 33(2)
The Condensed Milk and Dried Milk (Wales) (Amendment) Regulations 2008(3)	The whole Regulations

Vaughan Gething

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
27 Chwefror 2018

Cabinet Secretary for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers
27 February 2018

(1) O.S. 2003/3053 (Cy. 291).
(2) O.S. 2006/31 (Cy. 5).
(3) O.S. 2008/137 (Cy. 19).

(1) S.I. 2003/3053 (W. 291).
(2) S.I. 2006/31 (W. 5).
(3) S.I. 2008/137 (W. 19).

ATODLEN 1 Rheoliad 2(1)

Cynhyrchion llaeth sydd wedi eu preserfio a'u dadhydradu'n rhannol neu'n llwyr a'u disgrifiad neilltuedig

SCHEDULE 1 Regulation 2(1)

Partly or totally dehydrated preserved milk products and their reserved description

<i>Disgrifiad neilltuedig</i>	<i>Disgrifiad neilltuedig cyfatebol Cymraeg</i>	<i>Cynnyrch dynodedig</i>	<i>Reserved description</i>	<i>Welsh equivalent reserved description</i>	<i>Designated product</i>
1. Partly dehydrated milk	1. Llaeth wedi ei ddadhydradu'n rhannol		1. Partly dehydrated milk		
<i>Types of unsweetened condensed milk</i>	<i>Mathau o laeth cyddwys sydd heb ei felysu</i>		<i>Types of unsweetened condensed milk</i>		
(a) Condensed high-fat milk	Llaeth cyddwys sydd â braster uchel	Llaeth wedi ei ddadhydradu'n rhannol sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, nid llai na 15% o fraster ac nid llai na chyfanswm o 26.5% o solidau llaeth	(a) Condensed high-fat milk	Llaeth cyddwys sydd â braster uchel	Partly dehydrated milk containing, by weight, not less than 15% fat and not less than 26.5% total milk solids
(b) Condensed milk	Llaeth cyddwys	Llaeth wedi ei ddadhydradu'n rhannol sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, nid llai na 7.5% o fraster ac nid llai na chyfanswm o 25% o solidau llaeth	(b) Condensed milk	Llaeth cyddwys	Partly dehydrated milk containing, by weight, not less than 7.5% fat and not less than 25% total milk solids
(c) Condensed partly skimmed milk	Llaeth rhannol sgim cyddwys	Llaeth wedi ei ddadhydradu'n rhannol sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, nid llai nag 1% a llai na 7.5% o fraster ac nid llai na chyfanswm o 20% o solidau llaeth	(c) Condensed partly skimmed milk	Llaeth rhannol sgim cyddwys	Partly dehydrated milk containing, by weight, not less than 1% and less than 7.5% fat and not less than 20% total milk solids

(d) Condensed skimmed milk	Llaeth sgim cyddwys	Llaeth wedi ei ddadhydradu'n rhannol sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, nid mwy nag 1% o fraster ac nid llai na chyfanswm o 20% o solidau llaeth	(d) Condensed skimmed milk	Llaeth sgim cyddwys	Partly dehydrated milk containing, by weight, not more than 1% fat and not less than 20% total milk solids
<i>Types of sweetened condensed milk</i>	<i>Mathau o laeth cyddwys sydd wedi ei felysu</i>		<i>Types of sweetened condensed milk</i>		
(e) Sweetened condensed milk	Llaeth cyddwys sydd wedi ei felysu	Llaeth wedi ei ddadhydradu'n rhannol yn gymysg â swcros (siwgr lled-wyn, siwgr gwyn neu siwgr clauerwyn) ac sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, nid llai nag 8% o fraster ac nid llai na chyfanswm o 28% o solidau llaeth	(e) Sweetened condensed milk	Llaeth cyddwys sydd wedi ei felysu	Partly dehydrated milk with an admixture of sucrose (semi-white sugar, white sugar or extra-white sugar) and containing, by weight, not less than 8% fat and not less than 28% total milk solids
(f) Sweetened condensed partly skimmed milk	Llaeth rhannol sgim cyddwys sydd wedi ei felysu	Llaeth wedi ei ddadhydradu'n rhannol yn gymysg â swcros (siwgr lled-wyn, siwgr gwyn neu siwgr clauerwyn) ac sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, nid llai nag 1% a llai nag 8% o fraster ac nid llai na chyfanswm o 24% o solidau llaeth	(f) Sweetened condensed partly skimmed milk	Llaeth rhannol sgim cyddwys sydd wedi ei felysu	Partly dehydrated milk with an admixture of sucrose (semi-white sugar, white sugar or extra-white sugar) and containing, by weight, not less than 1% and less than 8% fat and not less than 24% total milk solids

(g) Sweetened condensed skimmed milk	Llaeth sgim cyddwys sydd wedi ei felysu	Llaeth wedi ei ddadhydradu'n rhannol yn gymysg â swcros (siwgr lled-wyn, siwgr gwyn neu siwgr clauerwyn) ac sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, nid mwy nag 1% o fraster ac nid llai na chyfanswm o 24% o solidau llaeth	(g) Sweetened condensed skimmed milk	Llaeth sgim cyddwys sydd wedi ei felysu	Partly dehydrated milk with an admixture of sucrose (semi-white sugar, white sugar or extra-white sugar) and containing, by weight, not more than 1% fat and not less than 24% total milk solids
2. Totally dehydrated milk	2. Llaeth wedi ei ddadhydradu'n llwyr		2. Totally dehydrated milk		
(a) Dried high-fat milk or high-fat milk powder	Llaeth sych sydd â braster uchel neu laeth powdr sydd â braster uchel	Llaeth wedi ei ddadhydradu'n llwyr sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, nid llai na 42% o fraster	(a) Dried high-fat milk or high-fat milk powder	Llaeth sych sydd â braster uchel neu laeth powdr sydd â braster uchel	Totally dehydrated milk containing, by weight, not less than 42% fat
(b) Dried whole milk or whole milk powder	Llaeth cyflawn sych neu laeth powdr cyflawn	Llaeth wedi ei ddadhydradu'n llwyr sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, nid llai na 26% a llai na 42% o fraster	(b) Dried whole milk or whole milk powder	Llaeth cyflawn sych neu laeth powdr cyflawn	Totally dehydrated milk containing, by weight, not less than 26% and less than 42% fat
(c) Dried partly skimmed milk or partly skimmed milk powder	Llaeth rhannol sgim sych neu laeth powdr rhannol sgim	Llaeth wedi ei ddadhydradu'n llwyr sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, mwy nag 1.5% a llai na 26% o fraster	(c) Dried partly skimmed milk or partly skimmed milk powder	Llaeth rhannol sgim sych neu laeth powdr rhannol sgim	Totally dehydrated milk containing, by weight, more than 1.5% and less than 26% fat
(d) Dried skimmed milk or skimmed milk powder	Llaeth sgim sych neu laeth powdr sgim	Llaeth wedi ei ddadhydradu'n llwyr sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, nid mwy nag 1.5% o fraster	(d) Dried skimmed milk or skimmed milk powder	Llaeth sgim sych neu laeth powdr sgim	Totally dehydrated milk containing, by weight, not more than 1.5% fat

Nodiadau

1. Caiff unrhyw gynnyrch dynodedig gynnwys—

- (a) unrhyw sylwedd a ganiateir yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor(1); a
- (b) fitaminau a mwynau yn unol â gofynion Rheoliad (EC) Rhif 1925/2006(2).

2. Wrth wneud unrhyw gynnyrch dynodedig y cyfeirir ato ym mharagraff 1(e), (f) neu (g) yn y tabl yn yr Atodlen hon, caniateir ychwanegu mesur ychwanegol o lactos, heb fod yn fwy na 0.03% yn ôl pwysau'r cynnyrch gorffenedig.

3. Heb ragfarnu Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(3), rhaid i'r cynhyrchion dynodedig gael eu preserfio drwy'r dulliau a ganlyn—

- (a) trin â gwres ar gyfer y cynhyrchion y cyfeirir atynt ym mharagraff 1(a) i (d) yn y tabl yn yr Atodlen hon;
- (b) ychwanegu swcros ar gyfer y cynhyrchion y cyfeirir atynt ym mharagraff 1(e) i (g) yn y tabl yn yr Atodlen hon; ac
- (c) dadhydradu ar gyfer y cynhyrchion y cyfeirir atynt ym mharagraff 2(a) i (d) yn y tabl yn yr Atodlen hon.

4.—(1) Heb ragfarnu'r gofynion cyfansoddiadol a nodir yn y tabl yn yr Atodlen hon, caniateir addasu cynnwys y protein mewn llaeth i gynnwys isafswm o 34% yn ôl pwysau (wedi ei fynegi ar fater sych sy'n rhydd o fraster) drwy ychwanegu neu dynnu'n ôl gyfansoddion llaeth (neu'r ddau) yn y fath fodd fel na newidir y gymhareb o brotein maidd i gasein yn y llaeth sy'n cael ei addasu.

(2) Mae'r deunyddiau crai a awdurdodir at ddibenion addasu protein y cyfeirir ato ym mharagraff (1) fel a ganlyn—

- (a) anathreiddiad llaeth, sef y cynnyrch a geir wrth grynodi protein llaeth drwy drahidlo llaeth, llaeth rhannol sgim neu laeth sgim;

Notes

1. Any designated product may contain—

- (a) any substance permitted pursuant to Regulation (EC) No 1333/2008 of the European Parliament and of the Council(1); and
- (b) vitamins and minerals in accordance with the requirements of Regulation (EC) No 1925/2006(2).

2. An additional quantity of lactose, not greater than 0.03% by weight of the finished product, may be added in the manufacture of any designated product referred to in paragraph 1(e), (f) or (g) in the table in this Schedule.

3. Without prejudice to Regulation (EC) No 853/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific hygiene rules for food of animal origin(3), the preservation of the designated products must be achieved—

- (a) by heat treatment for the products referred to in paragraph 1(a) to (d) in the table in this Schedule;
- (b) by the addition of sucrose for the products referred to in paragraph 1(e) to (g) in the table in this Schedule; and
- (c) by dehydration for the products referred to in paragraph 2(a) to (d) in the table in this Schedule.

4.—(1) Without prejudice to the compositional requirements set out in the table in this Schedule, the protein content of milk may be adjusted to a minimum content of 34% by weight (expressed on fat-free dry matter) by the addition or withdrawal (or both) of milk constituents in such a way as not to alter the ratio of whey protein to casein in the milk being adjusted.

(2) Authorised raw materials for protein adjustment purposes referred to in paragraph (1) are as follows—

- (a) milk retentate, which is the product obtained by concentrating milk protein by ultrafiltration of milk, partly skimmed milk or skimmed milk;

(1) OJ Rhif L 354, 31.12.08, t 16, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/874 (OJ Rhif L 134, 23.5.17, t 18).
(2) OJ Rhif L 404, 30.12.06, t 26, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1203 (OJ Rhif L 173, 6.7.17, t 9).
(3) OJ Rhif L 139, 30.4.04, t 55, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2016/355 (OJ Rhif L 67, 12.3.16, t 22).

(1) OJ No L 354, 31.12.08, p 16, last amended by Commission Regulation (EU) 2017/874 (OJ No L 134, 23.5.17, p 18).
(2) OJ No L 404, 30.12.06, p 26, last amended by Commission Regulation (EU) 2017/1203 (OJ No L 173, 6.7.17, p 9).
(3) OJ No L 139, 30.4.04, p 55, last amended by Commission Regulation (EU) 2016/355 (OJ No L 67, 12.3.16, p 22).

ATODLEN 2 Rheoliad 2(1)

Disgrifiadau eraill a ganiateir yn lle'r disgrifiadau neilltuedig a bennir yn Atodlen 1

1.—(1) Caniateir defnyddio'r term “evaporated milk” yn lle'r term “condensed milk” yn achos llaeth wedi ei ddadhydradu'n rhannol sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, o leiaf 9% o fraster a chyfanswm o 31% o solidau llaeth.

(2) Y term Cymraeg sy'n cyfateb i “evaporated milk” yw “llaeth anwedd”.

2.—(1) Caniateir defnyddio'r term “evaporated semi-skimmed milk” yn lle'r term “condensed partly skimmed milk” yn achos llaeth wedi ei ddadhydradu'n rhannol sy'n cynnwys, yn ôl pwysau, rhwng 4% a 4.5% o fraster ac nid llai na chyfanswm o 24% o solidau llaeth.

(2) Y term Cymraeg sy'n cyfateb i “evaporated semi-skimmed milk” yw “llaeth anwedd hanner sgim”.

3.—(1) Caniateir defnyddio'r term “semi-skimmed milk powder” neu “dried semi-skimmed milk” yn lle'r term “dried partly skimmed milk” neu “partly skimmed milk powder” yn achos llaeth wedi ei ddadhydradu'n llwyr sydd â chynnwys braster o rhwng 14% ac 16%.

(2) Y term Cymraeg sy'n cyfateb i—

- (a) “semi-skimmed milk powder” yw “llaeth powdr hanner sgim”, a
- (b) “dried semi-skimmed milk” yw “llaeth sych hanner sgim”.

ATODLEN 3 Rheoliad 6

Cymhwyso ac addasu darpariaethau'r Ddeddf

RHAN 1

Addasu adran 10(1)

1. Yn lle adran 10(1) o'r Ddeddf (hysbysiadau gwella) rhodder—

“If an authorised officer has reasonable grounds for believing that a person is failing to comply with any of regulations 3, 4 or 5 of the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018, the authorised officer may, by a notice served on that person (in this Act referred to as an “improvement notice”)—

- (a) state the officer's grounds for believing that the person is failing to comply with the relevant provisions;
- (b) specify the matters which constitute the person's failure so to comply;
- (c) specify the measures which, in the officer's opinion, the person must take in order to secure compliance; and
- (d) require the person to take measures, or measures that are at least equivalent to them, within such period (not being less than 14 days) as may be specified in the notice.”

RHAN 2

Cymhwyso ac addasu darpariaethau eraill o'r Ddeddf

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Darpariaeth y Ddeddf</i>	<i>Addasiadau</i>
Adran 2 (ystyr estynedig “sale” etc.)	Yn is-adran (1), yn lle “this Act” rhodder “the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018”. Yn is-adran (2), yn lle “This Act” rhodder “The Condensed Milk and Dried Milk (Wales)”

<i>Colofn 1</i> <i>Darpariaeth y Ddeddf</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Addasiadau</i>
Adran 3 (rhagdybiaethau y bwriedir i fwyd gael ei fwyta gan bobl)	Regulations 2018”. Yn is-adran (1), yn lle “this Act” rhodder “the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018”.
Adran 20 (troseddau oherwydd bai person arall)	Yn lle “any of the preceding provisions of this Part” rhodder “section 10(2), as applied by regulation 6(1) of the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018”.
Adran 21(1) a (5) (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy)	Yn is-adran (1), yn lle “any of the preceding provisions of this Part” rhodder “section 10(2), as applied by regulation 6(1) of the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018”.
Adran 29 (caffael samplau)	Ar ôl y geiriau “enforcement authority”, mewnosoder “, when carrying out duties under this section in relation to the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018, must exercise and perform those duties in accordance with the methods described in the Annex to First Commission Directive 87/524/EEC laying down Community methods of sampling for chemical analysis

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Darpariaeth y Ddeddf</i>	<i>Addasiadau</i>
Adran 30(8) (dadansoddi etc. samplau)	for the monitoring of preserved milk products(1) and”. Yn lle “this Act” rhodder “the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018”. Yn is-baragraff (a) hepgorer “under subsection (6) above”.
Adran 33 (rhwystro etc. swyddogion)	Yn is-adran (1), yn lle “this Act” (ym mhob lle y mae’n digwydd) rhodder “the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018”.

(1) OJ Rhif L 306, 28.10.87, t 24.

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Darpariaeth y Ddeddf</i>	<i>Addasiadau</i>
Adran 35(1)(1) a (2)(2) (cosbi terseddau)	<p>Yn is-adran (1), ar ôl “section 33(1) above”, mewnosoder “, as applied and modified by regulation 6(2) of, and Part 2 of Schedule 3 to, the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018”.</p> <p>Ar ôl is-adran (1), mewnosoder—</p> <p>“(1A) A person guilty of an offence under section 10(2), as applied by regulation 6(1) of the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018, is liable, on summary conviction, to a fine.”</p> <p>Yn is-adran (2), yn lle “any other offence under this Act” rhodder “an offence under section 33(2), as applied by regulation 6(2) of, and Part 2 of Schedule 3 to, the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018.”.</p>

(1) Mae adran 35(1) wedi ei diwygio gan baragraff 42 o Atodlen 26 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44) o ddyddiad i’w bennu. Mae diwygiadau eraill i adran 35(1) nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(2) Diwygiwyd adran 35(2) gan O.S. 2015/664. Mae diwygiadau eraill i adran 35(2) nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Darpariaeth y Ddeddf</i>	<i>Addasiadau</i>
Adran 36 (toseddau gan gyrff corfforaethol)	Yn is-adran (1), yn lle “this Act” rhodder “section 10(2), as applied by regulation 6(1) of the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018.”.
Adran 36A(1) (toseddau gan bartneriaethau Albanaidd)	Yn lle “this Act” rhodder “section 10(2), as applied by regulation 6(1) of the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018.”.
Adran 37(1), (3), (5) a (6) (apelau i lys ynadon)	Yn lle is-adran (1) rhodder— “(1) Any person who is aggrieved by a decision of an authorised officer of a food authority to serve an improvement notice under section 10(1), as applied and modified by regulation 6(1) of, and Part 1 of Schedule 3 to, the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018, may appeal to a magistrates’ court.” Yn lle is-adran (5) rhodder— “(5) The period within which such an appeal as is mentioned in subsection (1) above may be brought shall be— one month from the date on which notice of the decision was served

(1) Mewnosodwyd adran 36A gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28), a pharagraffau 7 ac 16 o Atodlen 5 iddi.

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Darpariaeth y Ddeddf</i>	<i>Addasiadau</i>
	on the person desiring to appeal; or the period specified in the improvement notice, whichever ends the earlier; and in the case of such an appeal, the making of the complaint shall be deemed for the purposes of this subsection to be the bringing of the appeal.”
	Yn is-adran (6)— yn lle “(3) or (4)” rhodder “(1)”, ac ym mharagraff (a), hepgorer “or to the sheriff”.
Adran 39 (apelau yn erbyn hysbysiaidau gwella)	Yn lle is-adran (1) rhodder— “(1) On an appeal against an improvement notice served under section 10(1), as applied and modified by regulation 6(1) of, and Part 1 of Schedule 3 to, the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018, the magistrates’ court may either cancel or affirm the notice and, if it affirms it, may do so either in its original form or with such modifications as the court may in the circumstances think fit.”
	Yn is-adran (3), hepgorer “for want of prosecution”.

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Darpariaeth y Ddeddf</i>	<i>Addasiadau</i>
Adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll)	Yn lle "this Act" (ym mhob lle y mae'n digwydd) rhodder "the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2018".